ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 16eg CHWEFROR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Wil Guest Roberts (Cadeirydd)
Annwen Daniels
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Kevin Bladwin

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Mandy Williams-Davies
Mari Rees

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Argymell: Ni chafwyd unrhyw nam newydd felly derbyn yr adroddiadau

2. **Llwybrau Cyhoeddus** - trefnu cyfarfod i drafod adroddiad y Cerddwr Llwybrau
Argymell: I drafod yr adroddiad nos Iau 23ain o Fawrth yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

3. **Hyrwyddo** - trafod prisiau Designer Signs
Argymell: I dderbyn y prisiau fel y dyfynbris sef £1,360.40 cyn TAW VAT am 10 arwydd cae chwarae, 2 arwydd Amseroedd Agor a Cau i'r Parc a 10 Hwyl gyda gwaelod ar gyfer dwr neu tywod gan Designer Signs.

4. **Diffibriliwr** - Cafwyd gwybodaeth bod gwahoddiad i'r BHF i gyfarfod y Cyngor Tref i drafod Cynnig y Cynghorydd Kevin Baldwin i osod diffibriliwr ar adeilad y Cyngor Tref wedi ei yrru ymlaen a disgwylir ateb yn fuan.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth

5. **Rawson** - Cafwyd gwybodaeth bod sawl anrheg wedi ei brynu'n lleol i Maia Jones, enillydd Ysgoloriaeth Patagonia'r Cyngor Tref 2016/17 i fynd gyda hi pan fydd yn ymweld â Rawson mis Mawrth.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth

6. **Bin Hafan Deg** - Cafwyd gwybodaeth bod pris o £15.50 y mis i wagio bin ychwanegol yn Hafan Deg.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i aros i'r Dref Werdd rhoi'r bin yn rhodd i'r Cyngor Tref.

7. **Parc Sglefrio** - Cafwyd gwybodaeth y bydd y goleuadau yn mynd allan am 10.00 yr hwyr cyn gynted â modd. Mae'r Dref Werdd yn trefnu gweithdy graffiti yn y Parc Sglefrio yn fuan a bod y gwaith o glirio'r hen draciau ceir modur bron a darfod.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i atgoffa'r Dref Werdd bod angen iddynt ofyn am ganiatâd y Cyngor Tref cyn cynnal unrhyw weithgaredd ar y Parc Sglefrio er mwyn cael sicrwydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

8. **Gwefan**
Cafwyd gwybodaeth bod y cynghorwyr yn fodlon ar y wefan hyd yn hyn a gobeithir iddi fod yn fyw o fewn y mis.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth